Beth allwn ni ei ddarganfod ar y Comin?

Trosolwg

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am y Comin ac yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiadau yn y gorffennol. Yna, gallant wneud tair tasg sy'n gofyn am ymweld â'r Comin. Bydd cynnal helfa sborion wedi ei strwythuro gan ddefnyddio eu synhwyrau yn eu galluogi i weithio gyda'r wyddor ac ansoddeiriau i ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod. Mae dysgwyr yn arsylwi ar y Comin i feddwl am eiriau ac ymadroddion y gallant eu defnyddio i'w ddisgrifio a defnyddio'r rhain i ddatblygu barddoniaeth syml. Gan ddod â phopeth maen nhw wedi'i ddysgu am y Comin ynghyd, mae dysgwyr yn cynhyrchu arddangosfa i'w dangos i weddill yr ysgol.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd

- Camera, ffôn clyfar neu dabled.

Adnoddau wedi eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Defnyddio ein synhwyrau ar y Comin! (A)
2. Defnyddio ein synhwyrau ar y Comin! (B)
3. Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.

Unwaith y bydd gwybodaeth flaenorol dysgwyr wedi cael ei rhoi ar waith, mae tair prif dasg i'r gweithgaredd hwn:

Tasg 2 – Helfa sborion
Tasg 3 – Ysgrifennu barddoniaeth
Tasg 4 – Creu arddangosfa.

Bydd angen i chi gynllunio a threfnu o leiaf un ymweliad â Chomin Gelligaer a Merthyr.

Cynlluniwyd y gweithgaredd i fod yn hyblyg fel ei bod yn bosibl cael:

a) un daith am gyfnod o amser lle gall dysgwyr gasglu gwybodaeth a thynnu lluniau i gyflawni'r tair tasg
b) mwy nag un daith lle gall dysgwyr gyflawni un neu fwy o'r tasgau
c) un daith a chyflawni un o'r tasgau yn unig
ch) un daith lle mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn cyflawni gwahanol dasgau.

Gellir cyflawni pob tasg ar y Comin neu yn yr ysgol ar ôl dychwelyd o ymweliad â'r Comin.

Sut i gynnal y gweithgaredd

Tasg 1: Beth fyddwn ni'n ei ddarganfod ar y Comin?

Eglurwch i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ymweld ac archwilio Comin Gelligaer a Merthyr. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr hyn y gallent ei ddarganfod yno yn ystod yr ymweliad, a'i drafod. Efallai y byddent yn cael eu hannog i ystyried y nodweddion naturiol a dynol sydd yn y lleoliad awyr agored, yr anifeiliaid a'r planhigion a allai fyw yno, pwy neu'r hyn y gallent ei weld yno, ac ati. Gallai dysgwyr dynnu llun neu ysgrifennu eu syniadau neu eu cofnodi fel map meddwl, er enghraifft.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth ydych chi'n ei wybod am y Comin? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa bethau allech chi eu gweld yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa anifeiliaid allai fyw yno? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa blanhigion allai fyw yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy arall allai fod yn ymweld â'r Comin pan fyddwn ni yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y byddai pobl efallai yn ymweld â'r Comin?

Tasg 2: Sut allwn ni ddefnyddio ein synhwyrau ar y Comin?

Eglurwch i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ymweld â'r Comin ac y byddan nhw'n defnyddio eu synhwyrau i ddod o hyd i wahanol bethau. Rhowch naill ai un neu'r llall o'r taflenni 'Defnyddio ein Synhwyrau ar y Comin!' i'r dysgwyr (**Adnodd 1** neu **Adnodd 2**) ac eglurwch beth fydd angen iddynt ei wneud tra ar y Comin i gwblhau'r daflen. Efallai y byddwch chi'n ystyried bod **Adnodd 1** neu **Adnodd 2** yn fwy addas i'ch dosbarth cyfan neu i wahanol grwpiau yn y dosbarth.

Yn ystod yr ymweliad, anogwch y dysgwyr i gwblhau eu taflenni, naill ai mewn parau neu mewn grwpiau bach.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth sy'n rhaid i chi ei wneud i lenwi'r daflen?
- Beth sydd angen i chi ei ddarganfod?
- Sut y byddwch chi'n dod o hyd i bob un peth? Pam ei wneud fel hyn?
- Pwy fydd yn chwilio am bob un peth? Pam mae'r person hwn wedi'i ddewis?

Tasg 2: Parhad…

- Sut y byddwch chi'n sicrhau eich bod chi'n dod o hyd i bopeth?
- Beth oedd yn hawdd dod o hyd iddo? Pam?
- Beth oedd yn anodd dod o hyd iddo? Pam?
- A oedd unrhyw beth na allech ddod o hyd iddo? Pam?

Tasg 3: Sut allwn ni greu cerddi am y Comin?

Eglurwch i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ymweld â'r Comin ac y bydd angen iddyn nhw ysgrifennu geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio'r gwahanol bethau maen nhw'n eu gweld, eu clywed, eu harogli a'u cyffwrdd wrth iddyn nhw gerdded o gwmpas.

Yn ystod yr ymweliad, efallai y byddwch hefyd yn trafod cyffelybiaethau ac enghreifftiau o gyflythreniad ac onomatopoeia gyda dysgwyr, a gwneud nodyn o'r rhain. Os oes amser, fe allech chi eistedd gyda dysgwyr a defnyddio eu syniadau i greu disgrifiad barddonol byr o un peth neu grŵp o bethau rydych chi wedi'u gweld. Gallai hyn fod yn goeden, cwningen, pryfyn neu heneb hynafol, er enghraifft.

Pan fydd dysgwyr yn ôl yn yr ysgol, gellid gofyn iddynt ddefnyddio eu geiriau a'u hymadroddion, ynghyd â'u syniadau a'u profiadau i greu cerdd i fyfyrio ar eu hymweliad â'r Comin. Er enghraifft, gallent greu cerdd acrostig y gallent fod yn gyfarwydd â hi neu **ddyfaliad**, a allai fod yn newydd iddynt.

Mewn **dyfaliad**, disgrifir gwrthrych mewn ymadrodd dau air, megis 'ffordd-morfil' yn lle 'môr'. Mae'r ddolen a ganlyn yn darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddir uchod. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r gwahanol fathau o gerddi byr y gallech eu creu a gallai roi mwy o syniadau i chi cyn eich ymweliad â'r Comin - https://poetryarchive.org/glossary/

Cwestiynau a awgrymir

- Beth wnaethoch chi ei weld/glywed/arogli?
- Pa eiriau neu ymadroddion fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio? Pam?
- Beth wnaethoch chi ei gyffwrdd? Pam? Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio? Pam?
- Pa fath o gerdd y byddwch chi'n ei hysgrifennu? Pam?
- Sut byddwch chi'n ei hysgrifennu? Pam?

Tasg 4: Sut allwn ni wneud arddangosfa o atgofion o'r Comin?

Eglurwch i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ymweld â'r Comin ac yna yr hoffech chi iddyn nhw arddangos eu hatgofion o'r Comin yn yr ysgol. Anogwch y dysgwyr i gynllunio a chofnodi syniadau am yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud pan fyddant yn ymweld â'r Comin. Er enghraifft, efallai y byddent yn cael eu hannog i ystyried sut y byddant yn gwneud cofnod o sut olwg sydd ar y Comin, trwy dynnu llun neu gymryd ffotograffau ohono, pa dystiolaeth a gwybodaeth y gallent ddod â nhw yn ôl i'r ysgol; er enghraifft, gallent wneud rhwbiadau coed, cymryd rhai mesuriadau, cadw cyfrif o rai o nodweddion y Comin, casglu dail, hadau a chonau, ac ati. Sylwch na ddylai dysgwyr gasglu llawer o eitemau o'r Comin. Bydd ychydig o enghreifftiau syml yn ddigon.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth fydd angen i chi ei wneud pan y byddwch yn ymweld â'r Comin? Pam?
- Beth allech chi dynnu llun ohono? Pam fyddech chi'n tynnu llun o hwn?
- Sut allech chi ddefnyddio'r llun i'ch helpu chi i wneud yr arddangosfa?
- Beth fyddwch chi'n cymryd ffotograffau ohonynt? Pam? Sut bydd y rhain yn eich helpu i greu eich arddangosfa?
- Sut allech chi wneud rhwbiad coeden? Sut ydych chi'n gwybod? Sut allech chi ddefnyddio hwn?
- Pa wybodaeth am y Comin y byddwch chi'n ei chasglu i'ch helpu chi i greu arddangosfa?
- Beth allai fod angen i chi ei gyfrif neu ei fesur? Pam?
- Pa fath o bethau y gallech chi eu casglu pan ymwelwch â'r Comin? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi ddefnyddio'r pethau hyn i wneud eich arddangosfa?

Gwahoddwch y dysgwyr i gasglu'r wybodaeth hon yn ystod yr ymweliad â'r Comin a hefyd eu hannog i wneud nodiadau a brasluniau o'r hyn maen nhw'n ei weld a'i glywed. Gallant ddefnyddio eu canfyddiadau i'w helpu i greu arddangosfa o'r Comin y gellir ei dangos yn yr ysgol. Efallai y byddan nhw'n gwneud hyn yn yr ystafell ddosbarth, mewn rhan arall o'r ysgol neu mewn gofod yn yr awyr agored, yn dibynnu ar eich ysgol, amser o'r flwyddyn, ac ati.

Tasg 4: Parhad…

Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio ystod eang o syniadau, cyfryngau ac ati i greu eu harddangosfa. Er enghraifft, gallent wneud cyfosodiad o ffotograffau, creu modelau o henebion hanesyddol allan o papier-mâché, gwneud gludweithiau a chynnwys lluniau a phaentiadau ac ati.

Efallai y bydd dysgwyr hefyd yn cael eu hysgogi i gynnwys y cerddi a grëwyd yn Nhasg 3, datblygu adroddiadau ysgrifenedig neu fideo o'r amser a dreuliwyd ar y Comin, cynnwys toriadau o erthyglau yn y wasg leol neu gynnal ymchwil a datblygu cronfa ddata syml sy'n dangos y planhigion a'r anifeiliaid sydd i'w canfod ar y Comin.

Gallai'r rhain i gyd chwarae rhan wrth helpu dysgwyr i greu arddangosfa ystyrlon o sut maen nhw'n gweld Comin Gelligaer a Merthyr.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer creu eich arddangosfa?
- Pa nodweddion o'r Comin ydych chi am eu dangos? Pam? Sut allech chi wneud hyn?
- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar y Comin? Sut allech chi gynnwys y rhain yn eich arddangosfa?
- Sut allech chi ddefnyddio ffotograffau a lluniau o'r Comin?
- Pa nodweddion o'r Comin y gallech chi wneud model ohonynt? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Sut allech chi wneud y model hwn?
- Sut allech chi ddangos y planhigion a'r anifeiliaid o'r Comin yn eich arddangosfa?
- Beth allech chi ei ysgrifennu am y gofod awyr agored? Sut allech chi gynnwys hyn?
- Sut allech chi gynnwys y cerddi rydych chi wedi'u hysgrifennu?

Adnodd 1: Defnyddio ein synhwyrau ar y Comin! (A)

- Beth yw eich pum synnwyr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Defnyddiwch eich synhwyrau i ddod o hyd i wahanol bethau wrth i chi gerdded ymlaen - **peidiwch â blasu unrhyw beth, os gwelwch yn dda!**
- Beth allwch chi ddod o hyd iddo ar gyfer pob llythyren o'r wyddor?
- Defnyddiwch air (ansoddair) i ddisgrifio'r hyn rydych chi'n ei ddarganfod.

Llythyren	Yr hyn wnes i ei ddarganfod	Gair i'w ddisgrifio
A		
B		
C		
Ch		
D		
Dd		
E		
F		
Ff		
G		
Ng		
H		
I		
J		
L		
Ll		
M		
N		
O		
P		
Ph		
R		
Rh		
S		
T		
Th		
U		
W		
Y		

Adnodd 2: Defnyddio ein synhwyrau ar y Comin! (B)

- Beth yw eich pum synnwyr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Defnyddiwch eich synhwyrau i ddod o hyd i wahanol bethau wrth i chi gerdded ymlaen - **peidiwch â blasu unrhyw beth, os gwelwch yn dda!**
- Defnyddiwch y lleoedd gwag i roi pethau heriol i'ch gilydd i'w darganfod.

Darganfyddwch rywbeth…	Yr hyn wnes i ei ddarganfod	Fy ngeiriau i'w ddisgrifio
pigog		
melyn		
sy'n arogli'n ofnadwy		
llyfn		
y gallwch ei wasgu		
na allwch ei wasgu		
sy'n swnio'n ddiddorol		
sy'n arogli'n neis		
garw		
pigog		
meddal		
sy'n ratlo		

Adnodd 3: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Beth fyddwn ni'n ei ddarganfod ar y Comin?

- Beth ydych chi'n ei wybod am y Comin? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa bethau allech chi eu gweld yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa anifeiliaid allai fyw yno? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa blanhigion allai fyw yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy arall allai fod yn ymweld â'r Comin pan fyddwn ni yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y byddai pobl efallai yn ymweld â'r Comin?

Tasg 2: Sut allwn ni ddefnyddio ein synhwyrau ar y Comin?

- Beth sy'n rhaid i chi ei wneud i lenwi'r daflen?
- Beth sydd angen i chi ei ddarganfod?
- Sut y byddwch chi'n dod o hyd i bob un peth? Pam ei wneud fel hyn?
- Pwy fydd yn chwilio am bob un peth? Pam mae'r person hwn wedi'i ddewis?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau eich bod chi'n dod o hyd i bopeth?
- Beth oedd yn hawdd dod o hyd iddo? Pam?
- Beth oedd yn anodd dod o hyd iddo? Pam?
- A oedd unrhyw beth na allech ddod o hyd iddo? Pam?

Tasg 3: Sut allwn ni greu cerddi am y Comin?

- Beth wnaethoch chi ei weld/glywed/arogli?
- Pa eiriau neu ymadroddion fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio? Pam?
- Beth wnaethoch chi ei gyffwrdd? Pam? Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio? Pam?
- Pa fath o gerdd y byddwch chi'n ei hysgrifennu? Pam?
- Sut byddwch chi'n ei hysgrifennu? Pam?

Tasg 4: Sut allwn ni wneud arddangosfa o atgofion o'r Comin?

- Beth fydd angen i chi ei wneud pan y byddwch yn ymweld â'r Comin? Pam?
- Beth allech chi dynnu llun ohono? Pam fyddech chi'n tynnu llun o hwn?
- Sut allech chi ddefnyddio'r llun i'ch helpu chi i wneud yr arddangosfa?
- Beth fyddwch chi'n cymryd ffotograffau ohonynt? Pam? Sut bydd y rhain yn eich helpu i greu eich arddangosfa?
- Sut allech chi wneud rhwbiad coeden? Sut ydych chi'n gwybod? Sut allech chi ddefnyddio hwn?
- Pa wybodaeth am y Comin y byddwch chi'n ei chasglu i'ch helpu chi i greu arddangosfa?
- Beth allai fod angen i chi ei gyfrif neu ei fesur? Pam?
- Pa fath o bethau y gallech chi eu casglu pan ymwelwch â'r Comin? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi ddefnyddio'r pethau hyn i wneud eich arddangosfa?

- Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer creu eich arddangosfa?
- Pa nodweddion o'r Comin ydych chi am eu dangos? Pam? Sut allech chi wneud hyn?
- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar y Comin? Sut allech chi gynnwys y rhain yn eich arddangosfa?
- Sut allech chi ddefnyddio ffotograffau a lluniau o'r Comin?
- Pa nodweddion o'r Comin y gallech chi wneud model ohonynt? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Sut allech chi wneud y model hwn?
- Sut allech chi ddangos y planhigion a'r anifeiliaid o'r Comin yn eich arddangosfa?
- Beth allech chi ei ysgrifennu am y gofod awyr agored? Sut allech chi gynnwys hyn?
- Sut allech chi gynnwys y cerddi rydych chi wedi'u hysgrifennu?

Llywodraeth Cymru Welsh Government